



Cyngor Cymuned Llandwrog

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor

13 Mehefin 2016

Cyngor Cymuned Llandwrog

Cofnodion y cyfarfod o Gyngor Cymuned Llandwrog a gynhaliwyd Nos Lun, 13 Mehefin 2016 yn Neuadd Pentref Y Groeslon

Yn bresennol- 9 aelod

Cynghorwyr Gwyn Owen Jones, Y Fron; Alun Wyn Jones, Y Groeslon; Robert Jones, Y Groeslon; Hywel J Owen, Y Groeslon; Bryn Williams, Carmel; Dyfed Williams, Llandwrog; Helen Hughes, Carmel; Alan Patterson, Carmel; David Marc Lewis, Y Fron a'r Clerc.

16-06-01 **1 Croeso'r Cadeirydd**

Croesawyd yr Aelodau i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Estynnwyd croeso arbennig i Helen Hughes, Wenallt, Carmel yn ei chyfarfod cyntaf o'r Cyngor.

16-06-02 **2 Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriad gan yr aelodau canlynol -

Cynghorwyr Gerwyn Owen, Y Groeslon; Emyr Peris Hughes, Y Groeslon; Gethin Thomas, Llandwrog; Robert Isaac Jones, Llandwrog; Robin Silyn Jones, Y Groeslon

16-06-03 **3 Datgan Buddiant neu Fuddiant sydd yn Rhagfarnu**

Cyng. Alun Wyn Jones, Cyng. David Marc Lewis a Cyng. Gwyn Owen Jones yn gyflogedig gan Gyngor Gwynedd.

16-06-04 **4 Derbyn Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol fel Rhai Cywir (16 Mai 2016)**

Derbyniwyd y cofnodion uchod fel rhai cywir ac fe'i harwyddwyd gan y Cadeirydd

5 Materion yn Codi o'r Cofnodion

Cymdeithas y Porwyr

16-06-05 **Giât i'r Mynydd ger Siop Doris**

Dim diweddariad gan y Porwyr.

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth

16-06-06 **Cyd-weithio**

Bydd y Porwyr yn rhoi gwybod i'r Cyngor unwaith y bydd y cais wed ei ystyried.

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth

16-06-07 **Cynllun Gridiau**

.

Derbyniwyd neges gan John Griffith at 7 Mehefin fod rhifau mewn pensel ar bob papur pleidlais a rhifau ar yr amlen i atal unigolion llungopïo papur pleidlais ac felly rhwystro dychwelyd sawl papur o'r un cyfeiriad. Rhifau ar yr amlenni ac ar bapurau pleidleisio wedi cythruddo rhai o drigolion y Fron ac wedi codi amheuron fod y porwyr wedi rhifo'r papurau i ddarganfod pwy sydd o blaid a phwy sydd ddim. Bygythiad wedi ei wneud gan roi o'r trigolion i gyfeirio'r mater i Gyngor Gwynedd ac i'r Ombwdsman. Grŵp Datblygu'r Fron wedi tynnu'r rhybudd o safle we y Grŵp.

John Griffiths wedi ymateb yn datgan fod y rhifau wedi ei gytuno gan y Pwyllgor.

Adroddwyd gan Cyng. Gwyn Owen Jones yn awgrymu mai peidio â chamu yn ôl gan fod cyfrifoldeb gan y Cyngor a diddordeb yn yr hynny sydd yn digwydd, yn enwedig wedi derbyn cwynion am wartheg ar y strydoedd yng Ngharmel. Fodd bynnag i sicrhau nad yw'r Cyngor yn cael ei dynnu i mewn i unrhyw anghydfod ac i leddfu amheuron, efallai fod y Cyngor yn datgan nad dewis y Cyngor oedd rhifo o gwbl, ond gan fod wedi digwydd, ein bod yn gweld y ffordd allan a rhoi sicrhau nad yw'r Porwyr yn gweld y papurau pleidleisio a'u bod yn cael eu dinistrio yn syth ar ôl y cyfrif a hynny ym mhresenoldeb rhywun annibynnol o'r Cyngor.

Cyng. . Alun Wyn Jones - yn cadarnhau rôl y Cyngor hyd yma- 1) yn barod i dderbyn y papurau pleidleisio 2) yn barod drefnu a chyflawni'r cyfrif 3) I gadeirio'r noson agored.

Penderfyniad y Cyngor –

Fod y Cyngor yn cytuno gyda sylwadau Cyng. Gwyn Owen Jones i gefnogi gweithred y porwyr gyda'r papurau pleidlais yn amodol i'r Porwyr gytuno nad y byddent yn gweld y papurau pleidleisio a'u bod yn cael eu cadw'n ddiogel neu ei dinistrio yn syth ar ôl y cyfrif a hynny ym mhresenoldeb rhywun annibynnol o'r Cyngor.

16-06-08 **Wal Bryn'rodyn**

Adroddwyd fod y Clerc wedi derbyn y prisiau canlynol ar gyfer y wal a'r ffens-

Wal - RGOwen, Rhosgadfan pris o £2,000 + tax i godi'r wal. Mae'r gwaith yn cynnwys gosod cerbiau newydd a gosod y ffens yn ôl nes bydd y rheiliau newydd wedi eu gosod

Ffens - Gweithdy Brynafon, Llanrug - ffens - £5,200 + tax .

Cyfanswm cost (heb tax) £7,200, fyddai'n gadael £690 ar gyfer trwsio'r cerrig beddi

Trafodwyd gohebiaeth Crawfords fel y nodwyd yn y rhaglen.

Sylwadau Aelodau-

Cyng. Bryn Williams - yn awgrymu y dylid cael pris gan ymgwymerwyr cerrig beddi i o trwsho'r cerrig beddi.

Cyng.' Hywel J Owen - neges Crawfords yn hollol eglur mai £7,890 ydi'r uchafswm. Awgrymu y dylid derbyn y ddau bris fyddai'n gadael £690 ar gyfer y cerrig.

Cyng. Alun Wyn Jones - angen fod eglur mai dim ond codi y cerrig beddi sydd wedi cwmpo sydd ei angen ac nid atgyweirio'r cerrig.

Cyng. Dyfed Williams - cytuno fod cyfrifoldeb ar y Cyngor i godi'r cerrig

Penderfynwyd ar y canlynol-

- i) Derbyn pris R G Owen o £2,000 i godi'r wal***
- ii) Peidio derbyn pris £5,200 gan gyfeirio'r mater i'r Pwyllgor Mynwentydd ac Eiddo***
- iii) Trefnu prisiau gan ymgwymerwyr cerrig beddi i ail-godi'r cerrig a ddifrodwyd***

16-06-09 **Caeau Pêl-droed**

Adroddwyd gan y Clerc nad yw'r ffurflenni TR1 wedi ei addasu gan Gyngor Gwynedd. Mae'r Swyddog sydd yn gyfrifol yn cydnabod fod yna oedi ac yn ymddiheuro. Er nad y Cyngor sydd berchen y tiroedd yn gyfreithiol felly mae'r Cyngor hwn wedi cymryd cyfrifoldeb am y cynnal a chadw yn arbennig y gwair.

Adroddwyd ymhellach gan y Clerc fod cae pêl-droed Carmel mewn cyflwr difrifol. Er bod y cae wedi cael dau doriad gan Selwyn Jones mae'r gwair yn fawr ac nid oes posib chwarae pêl droed arno.

Awgrymodd y Clerc l'r aelodau fod angen toriadau wythnosol ar y cae hyd nes y bydd wedi cyrraedd cyflwr derbyniol

Awgrymodd Cyng. Alun Wyn Jones i ofyn i Adran Fwrdeistrefol Cyngor Gwynedd am bris i wneud toriad gyda thractor.

Adroddwyd hefyd fod y goliau wedi i dynnu i ffwrdd mae'n debygol gan Gyngor Gwynedd.

Penderfynwyd ar y canlynol-

- i) Fod y Cyngor yn derbyn y wybodaeth am y ffurflenni TP1***
- ii) Fod y Clerc yn gofyn i Adran Fwrdeistrefol Cyngor Gwynedd wneud un toriad ar y cae yng Ngharmel.***
- iii) Fod y Clerc yn gofyn i'r Adran uchod os mai nhw oedd yn gyfrifol am symud y goliau***

16-06-10 **Llwybr Cae Iago, y Groeslon**

Adroddwyd gan y Clerc y gohiriwyd cyfarfod o'r Pwyllgor Mynwentydd gan nad oedd cworwm. Bydd y mater yn cael ei drafod yn cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth

16-06-11 **Clwt Foty**

Adroddwyd gan y Clerc fod Adran Llygredd Cyngor Gwynedd am gynnal archwiliad o'r safle. Ymhellach roedd y Clerc wedi cyfeirio'r mater i Stad y Goron. Addawyd ganddynt i edrych i few i'r mater.

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth a monitro'r sefyllfa

16-06-12 **Ffoes Bethesda Bach**

Cadarnhad fod y ffermwr wedi cyflawni'r gwaith

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth

16-06-13 **6 Derbyn Cofnodion y Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd 3 Mehefin 2016**

Derbyniwyd y cofnodion uchod fel rhai cywir ac fe'i harwyddwyd gan y Cadeirydd

7 Materion yn codi o'r cofnodion -

16-06-14 **Trefniadau Archwilio Cyfrifon 2015-16**

Penderfynwyd ar y canlynol.

- i) Fod y Cyngor yn derbyn y wybodaeth uchod.***
- ii) Fod y Cyngor yn nodi pryderon y Clerc ac yn derbyn fod y gwaith o ddarparu'r wybodaeth ychwanegol y gofynnir amdano yn cynyddu llwyth gwaith y Clerc.***
- iii) Fod y Cyngor yn penodi Mr John Dryhurst Roberts fel Archwilydd Mewnol i archwilio cyfrifon 2015-16 y Cyngor.***

16-06-15 **Cyfrifon Terfynol 2015-16**

Crynodeb o'r sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn -

Arian yn y Banc ar 31 Mawrth 2016	(£14,061.59)
Llai Sieciau heb eu cyflwyno	£2,449.40
Incwm yn ddyledus	(£1,481.60)
Credydwy'r	£831.20
Cyfanswm Adnoddau ar gael	(£12,262.59)
Cronfeydd y Cyngor ar 31 Mawrth 2016	
Arian Wrth Gefn	(£5,000.00)
Tanwariant Wedi Ei Glustnodi Dinas Dinlle	(£5,000.00)
Tanwariant Heb Ymrwymiad	(£2,262.59)
Cyfanswm y Cronfeydd	(£12,262.59)

Penderfynwyd ar y canlynol-

- i) Fod y Cyngor yn derbyn y wybodaeth o'r balansau fel y nodir uchod.*
- ii) Fod y Cyngor yn derbyn cywirdeb cyfrifon 2015-16*
- iii) Fod y Cyngor yn cyflwyno'r cyfrifon i'r Archwilydd Mewnol*

16-06-16 **Rheolau Sefydlog**

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth ac yn ymddiried yn y Pwyllgor i adolygu'r Rheolau Ariannol.

16-06-17 **8 Cyfrifon y Cyngor - Ffurflen Ariannol Flynyddol 2015-16**

Trefniadau ac Amserlen Datganiad Blynyddol - Cyfrifon Terfynol 2015-16

- 1 – Y Swyddog Ariannol/Clerc yn paratoi Adran 1 a 2
- 2 - Yr Archwilydd Mewnol yn cwblhau'r Adroddiad Archwilio Mewnol
- 3 – Y Swyddog Ariannol/Clerc yn ardystio'r ffurflen yn Adran 3 cyn 30 Mehefin 2016 ac yn cyflwyno'r ffurflen i'r Cyngor.
- 4 – Y Cyngor yn ystyried ac yn cymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol o'r Cyngor cyn 30 Mehefin 2016.
- 5 - Caiff Adran 3 o'r Ffurflen ei lofnodi a'i ddyddio gan y Cadeirydd yn y cyfarfod. Y Swyddog Ariannol/Clerc yn anfon copi o'r Ffurflen Flynyddol a'r dogfennau wedi eu hardystio y gofynnwyd amdanynt at yr archwilydd allanol a benodwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru
- 6- Yr archwilydd allanol yn cwblhau'r archwiliad. Os nad oes ddiwygiadau bydd yr archwilydd yn ardystio Adran 3 ac yn ei ddychwelyd at y Cyngor i'w chyhoeddi. Os oes angen gwneud diwygiadau bydd yr archwilydd allanol yn dychwelyd y ffurflen at y Cyngor i'w diwygio a'i hail-gymeradwyo. Rhaid anfon eto at yr Archwilydd Allanol.
- 7- Rhaid i'r Cyngor gyhoeddi'r Ffurflen Flynyddol a ardystiwyd erbyn 30 Medi 2016.

Adroddwyd gan y Clerc fod John Roberts wedi cwblhau'r Adroddiad Archwilio Mewnol. Nid oedd unrhyw fater wedi codi.

Penderfynwyd ar y canlynol-

- i) Fod y Cyngor yn cymeradwyo'r cyfrifon am 2015-16*
- ii) Fod y Cadeirydd yn arwyddo Rhan 3*

Mater a Godwyd gan Aelod

16-06-18 **9 Cydweithio**

Cynnig gan Cyng. Alun Wyn Jones -

"Fod y Cyngor yn derbyn yr egwyddor fod Cynghorau Cymuned ardal Dyffryn Nantlle yn cydweithredu'n ffurfiol"

Sylwadau Aelodau –

Cyng. Alun Wyn Jones –

Asedau cyffelyb gan y Cynghorau

Posibilrwydd o gael cytundebau ar y cyd rhwng y Cynghorau ee cynnal llwybrau a mynwentydd; toiledau cyhoeddus ac ati

Budd mawr i'r Cynghorau siarad â'i gilydd a chyd-weithio - annoeth fyddai peidio

Cynghorau dan sylw - Llanllyfni, Llanwnda, Llandwrog a Betws Garmon

Cyng. Dyfed Williams - peidio bod yn rhy optimistaidd i gael arbedion - cyllideb fechan iawn sydd yma.

Cyng. Alan Patterson - cytuno i gyd-weithio ond gwneud y pwynt nad yw am weld contractwyr lleol golli cytundebau i gwmnïau mwy ddim yn lleol

Penderfyniad y Cyngor –

Fod y Cyngor yn derbyn y cynnig ac yn derbyn yr egwyddor fod Cynghorau Cymuned ardal Dyffryn Nantlle yn cydweithredu'n ffurfiol

Gohebiaeth

16-06-19 **10 Cyngor Gwynedd - Cod Ymddygiad Aelodau**

Trafodwyd gohebiaeth Sion Huws, Adran Gyfreithiol Cyngor Gwynedd fel y nodwyd yn y rhaglen.

Adroddwyd gan y Clerc fod cyfarfod o Banel Rheolau Sefydlog wedi ei alw ar yr wythnos cynt ar 9 Mehefin i drafod y Cod Ymddygiad. Yn anffodus dim ond dau aelod a'r Clerc oedd yn bresennol ac felly nid oedd cworwm i gynnal Panel. Fodd bynnag bu i'r aelodau a'r Clerc drafod cynnwys y Cod Ymddygiad enghreifftiol am oddeutu awr a hanner ac yr argymhelliad oedd i'r Cyngor fabwysiadu'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol fel a ddiwigwyd a'i fabwysiadu gan Gyngor Gwynedd a bod y Panel yn cyfarfod yn fuan i graffu'r Cod Ymddygiad

Penderfynwyd ar y canlynol-

- i) Fod y Cyngor yn mabwysiadu Cod Ymddygiad Enghreifftiol fel a'i mabwysiadwyd gan Gyngor Gwynedd yn Ebrill 2016.***
- ii) Fod y Cyngor yn gofyn i'r Panel Rheolau Asedau i graffu'r Cod Ymddygiad.***

16-06-20 **11 Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar lwfansau a threuliau a dalwyd i gynghorwyr cymuned**

Mae'n ofyniad statudol fod pob cyngor yn cyhoeddi ac adrodd yn flynyddol i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar lwfansau a threuliau a dalwyd i gynghorwyr cymuned a thref erbyn 30 Medi bob blwyddyn. At ddibenion tryloywder mae'r Panel hefyd yn mynnu fod cynghorau yn cyhoeddi adroddiadau DIM.

Adroddwyd gan y Clerc fod y wybodaeth wedi ei anfon i'r Panel er nad oedd dim i'w adrodd.

Penderfyniad derbyn y wybodaeth heb sylwadau.

16-06-21 **13 Un Llais Cymru - Pwyllgor Ardal**

Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Fercher, 15 Mehefin 2016.
Cofnodion y cyfarfod diwethaf

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth heb sylwadau.

16-06-22 **14 Cyngor Gwynedd - Ardaloedd Cymunedol**

Gwahoddiad i gynnig sylwadau ar ardaloedd cymunedol Gwynedd i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethol Dyfodol Llywodraeth Cymru (2015) yn gosod cyfrifoldeb ar gyrff cyhoeddus i "feddwl am y tymor hir, i weithio'n well gyda phobl a chymunedau lleol a gyda'i gilydd". Nod y Ddeddf yw "gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru...i greu Cymru yr ydym i gyd eisiau byw ynddi, nawr ac yn y dyfodol"

Ym Mehefin 2016 bydd y Bwrdd, sydd yn gyfrifol am Wynedd angen dod i gytundeb ar y cymunedau is-sirol. Dyma benderfyniad y Bwrdd

Caernarfon - ardaloedd Caernarfon, Deiniolen, Llanberis, Nantlle/Penygroes, Waunfawr.

Penderfyniad nodi'r wybodaeth heb sylwadau.

12 Ceisiadau Cynllunio - Ceisiadau Mehefin 2016

16-06-23 **C16/0503/17/LL**

Frondirion Uchaf, Cilgwyn. LI54 7SE

Cais i godi estyniad deulawr ar ochr yr eiddo

Penderfyniad y Cyngor - dim gwrthwynebiad

Materion Ariannol

16-06-24 **13 Derbyniadau i 31 Mai 2016**

Manylion	Cyfanswm
Dim	£0

16-06-25 **14 Taliadau sydd angen eu hawdurdodi gan y Cyngor -**

Manylion	Swm heb TAW	Cyfanswm y Taliad	Rhif Siec
Cyflog y Clerc - Mehefin 2016	£420.13	£420.13	Uniongyrchol
HMRC - Treth Incwm Mehefin 2016	£111.20	£111.20	Uniongyrchol
Lwfans Clerc – Mehefin 2016	£30.00	£30.00	Uniongyrchol

16-06-26 **15 Materion yn codi gan Aelodau at y cyfarfod nesaf -**

Cyng. Alan Patterson, Carmel

Giât Fynwent Carmel.

Giât y fynwent ddim yn cau a defaid wedi bod i'r fynwent. Cwynion fod defaid yn dinistrio blodau. Cynnig i'r Cyngor ystyried cau'r giât fawr ac agor y giât fochyn i ymwelwyr.
Cyfeirio'r mater i'r Pwyllgor Mynwentydd

16-06-27 **Cyng. Helen Hughes, Carmel**

Gardd y Coleg, Carmel.

Cwynion fod y llwybr i'r cae chwarae angen ei docio.
Gardd y Coleg wedi gôr dyfu. Gofyn pwy sydd yn gyfrifol am y safle.
Clerc i holi Gwion Llwyd os ydi'r pwyllgor a sefydlwyd blwyddyn ddiwethaf yn parhau mewn bodolaeth.

Cyng. Bryn Williams , Carmel

16-06-28 **Neuadd Carmel.**

Nodi fod cyflwr allanol y Neuadd wedi diriwio yn arbennig ar y plaster. Gwneud y sylwad fod arian sylweddol wedi ei wario ar y Neuadd ac yn biti gweld ei gyflwr wedi dirywio.
Clerc i holi Pwyllgor y Neuadd os oes ydi'r broblem wedi ei adrodd yn ôl i'r Cwmni, Claytons.

Cyng. Alun Wyn Jones, Goreslon

16-06-29 **Gair o ddiolch.**

Adroddwyd fod Mr Geraint Strello o'r Bontnewydd wedi bod wrthi dros gynod o amser yn difa tyrchod daear o fynwent Lindwrog. Gofynnwyd i'r Cyngor ysgrifennu llythyr o ddiolch iddo am ei ymdrechion.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.10 yr hwyr

Cafwyd y Cofnodion yn rhai cywir -

Cyng. Robert Jones, Cadeirydd y Cyngor

Dyddiad -